Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Hirael
# Ffordd y Gogarth
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 1BA

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/08/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gynradd Hirael ar ochr ogleddol dinas Bangor. Daw o dan ofal awdurdod Gwynedd. Mae 165 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 16 o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser. Mae'r disgyblion wedi eu rhannu o fewn chwe dosbarth, gan gynnwys tri dosbarth oed cymysg. Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol.

Daw ychydig o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 24% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi adnabod 24% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan 3% o ddisgyblion datganiad o anghenion addysgol arbennig. Daw 28% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae 21% yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac mae ychydig iawn o ddisgyblion o dan ofal yr awdurdod.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 1996 a chafodd yr ysgol ei harolygiad diwethaf ym Mehefin 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Hirael yn 2014-2015 yw £3,339. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Ngwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £3,220. Mae Ysgol Gynradd Hirael yn safle 92ain o'r 95 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- Bod y rhan fwyaf yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n briodol mewn gwersi
- Bod llawer o ddisgyblion Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da
- Bod ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda ac maent yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i'w cyfoedion ac i oedolion
- Bod canran presenoldeb disgyblion wedi gwella dros y tair blynedd ddiwethaf ac yn cymharu'n dda gydag ysgolion tebyg
- Bod athrawon yn darparu amrywiaeth o brofiadau buddiol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn addas

Fodd bynnag:

- Nid yw medrau iaith Cymraeg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddigonol ar draws yr ysgol
- Nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni gystal ag y gallent
- Anghyson yw'r cynllunio ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol
- Nid yw gwersi bob tro'n cynnig cyfleoedd addas ar gyfer datblygu medrau meddwl a dysgu annibynnol disgyblion yn ddigonol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth glir i arwain ysgol gynhwysol lle mae pob disgybl yn bwysig
- Bod yr uwch dîm rheoli yn dadansoddi data perfformiad yn addas i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu
- Bod y corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn ymwybodol o'i blaenoriaethau
- Bod arweinwyr yn defnyddio ystod o weithdrefnau addas i arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad disgyblion
- Bod gan yr ysgol lawer o bartneriaethau cadarn sy'n cael effaith werthfawr ar ddysgu a lles disgyblion
- Bod y pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus

Fodd bynnag:

- Nid yw cyfrifoldebau arweinwyr yr ysgol yn ddigon strategol i fynd i'r afael â holl flaenoriaethau'r ysgol yn effeithiol
- Nid yw'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n llawn i'r broses hunanarfanu er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella
- Nid yw'r ysgol yn gweithredu'n ddigon effeithiol ar wybodaeth sy'n deillio o'r broses fonitro er mwyn mynd i'r afael â thanberfformio
- Nid yw trefniadau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain at dargedau penodol sy'n ymateb yn llawn i flaenoriaethau'r ysgol

## Argymhellion

A1 Gwella medrau siarad, darllen ac ysgrifennu disgyblion yn y Gymraeg

A2 Codi safonau disgyblion mwy abl

A3 Sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion

A4 Cryfhau trefniadau asesu i helpu disgyblion wybod sut i wella'u gwaith

A5 Sicrhau bod yr addysgu yn datblygu medrau meddwl a hybu dysgu annibynnol disgyblion

A6 Gwneud defnydd effeithiol o feini prawf llwyddiant er mwyn mesur deilliannau'r cynllun gwella ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o ddisgyblion islaw'r disgwyliedig. Fodd bynnag, mae llawer yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n dda ac yn cyfrannu'n briodol mewn gwersi. Fodd bynnag, nid yw medrau iaith disgyblion yn datblygu'n ddigonol ar draws yr ysgol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn ddigonol ac yn dechrau defnyddio ystod gynyddol o eirfa gyfarwydd yn briodol mewn sefyllfaoedd gwahanol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn cyfathrebu ar lafar yn ddiogel yn y Gymraeg a'r Saesneg. Fodd bynnag, nid yw medrau llafar y lleiafrif wedi datblygu'n ddigon medrus i gynnal trafodaethau estynedig neu fynegi barn yn gadarn.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n briodol. Mae disgyblion yn adnabod seiniau yn gadarn ac yn dechrau adeiladu geiriau'n briodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addas i ddarllen yn gymharol rugl. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn briodol. Maent yn datblygu mwy o rugldeb ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'r testun. Fodd bynnag, mae eu gallu i drafod ystod o ddeunydd darllen a mynegi barn am eu hoff awduron yn llai datblygedig.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu dilyniant o frawddegau gyda chywirdeb, gan ddefnyddio atalnodi sylfaenol yn gywir. Maent yn ysgrifennu mewn amrywiaeth eang o ffurfiau ac at wahanol gynulleidfaoedd yn briodol ac mae ychydig yn dechrau amrywio cychwyn brawddegau yn addas, er enghraifft i gymharu siopa ddoe a heddiw. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm yn briodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn ysgrifennu at wahanol bwrpas a chynulleidfaoedd yn addas ac, erbyn diwedd y cyfnod, mae sillafu ac atalnodi llawer yn gadarn. Mae'r mwyafrif yn defnyddio paragraffau'n llwyddiannus i drefnu gwaith ac yn drafftio a gwella darnau yn addas. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn annibynnol mewn pynciau eraill yn ddigon datblygedig.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn. Erbyn diwedd y cyfnod, gall llawer ohonynt gymhwyso'u medrau i ddatrys problemau adio, tynnu a lluosi'n gywir. Maent yn casglu data a'i chofnodi mewn ffurf graff, er enghraifft mesur hyd cenyn pedr ar iard yr ysgol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn briodol ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau priodol i ddatrys problemau rhif yn llwyddiannus; er enghraifft, rhifo a phwyso hadau a mesur curiad y galon yng ngwersi gwyddoniaeth.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau personol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni gystal ag y gallent. Mae llawer o ddisgyblion Saesneg fel iaith ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol yng nghyflawniad bechgyn a merched yn y lefelau disgwyliedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae tueddiad i'r merched berfformio'n well na'r bechgyn ar y lefel uwch (Lefel 5) ym mhob pwnc dros y pedair blynedd ddiwethaf.

Yn gyffredinol dros y pedair blynedd diwethaf, mae gwahaniaeth arwyddocaol mewn cyflawniad rhwng disgyblion cyfnod allweddol 2 sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o dair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwyliedig o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi amrywio rhwng yr 50% is a'r 25% isaf mewn llythrennedd a datblygiad rhifedd. Mae perfformiad ar y deilliant uwch wedi amrywio rhwng yr 50% uwch a'r 25% isaf.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, mae perfformiad disgyblion mewn gwyddoniaeth ar y lefel uwch wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% uchaf.

**Lles: Da**

Mae bron pob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor. Mae ymddygiad y disgyblion yn dda ar draws yr ysgol ac mae bron pob un yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i'w cyfoedion ac i oedolion. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda am bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac maent yn cyflawni'n dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn weithgar a brwdfrydig ac yn cydweithio'n briodol. Mae llawer o'r disgyblion yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn cadw ar dasg am gyfnodau penodol. Fodd bynnag, nid yw gallu disgyblion i weithio'n annibynnol nac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain wedi datblygu cystal ar draws yr ysgol.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae canran presenoldeb yr ysgol wedi gwella'n arwyddocaol. Yn 2014, roedd yr ysgol wedi'i gosod yn y 25% uchaf o'i gymharu ag ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.
Mae'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol ac yn chwarae rôl bwysig ym mywyd yr ysgol. Maent wedi cyfrannu'n dda i benderfyniadau sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar fywyd a lles gweddill disgyblion yr ysgol; er enghraifft, mae aelodau'r cyngor wedi ymchwilio i enwau perthnasol i'r dosbarthiadau ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn chwarae rhan lawn ym mywyd y gymuned leol. Maent yn cymryd rhan mewn cyngherddau ac yn codi arian at elusennau lleol yn rheolaidd.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod o brofiadau buddiol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion yn addas. Maent yn bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn briodol. Mae'r athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn adeiladu'n gadarn ar brofiadau blaenorol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio bob tro yn sicrhau her bwrpasol i'r disgyblion mwyaf abl nac yn annog annibyniaeth a medrau meddwl y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ei chynlluniau. Mae'r athrawon yn sicrhau ystod berthnasol o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, braidd yn anghyson yw'r cynllunio ar gyfer medrau rhifedd disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn atgyfnerthu profiadau dysgu disgyblion yn fuddiol drwy drefnu ymweliadau addysgol a thrwy weithgareddau diddorol. Caiff y dimensiwn Cymreig a'r iaith Gymraeg sylw cadarn ar draws yr ysgol. Darperir amrywiaeth dda o gyfleoedd ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddathliadau, hanes a diwylliant Cymru. Er enghraifft, maent yn mynd i Gestyll Penrhyn a Biwmares fel rhan o brosiect ar gestyll ac yn cymryd rhan mewn cyngerdd gyda Bryn Terfel.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang wedi datblygu'n dda ar draws y cwricwlwm. Hyrwyddir ymwybyddiaeth y disgyblion ymhellach trwy gynnal wythnos rhyngwladol yn flynyddol, gan wneud defnydd da o ymwelwyr o'r gymuned leol, er enghraifft rhannu arferion crefyddau eraill a bwydydd rhyngwladol. Mae'r cyngor eco yn cyfrannu at ddealltwriaeth disgyblion o gynaliadwyedd yn effeithlon. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn derbyn cyfleoedd da i ymestyn eu ymwybyddiaeth ymhellach trwy weithgareddau pwrpasol, er enghraifft, tyfu llysiau a ffrwythau ar randir yr ysgol.

**Addysgu: Digonol**

Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu priodol sy'n sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Maent yn rheoli ymddygiad yn dda ac mae'r rhan fwyaf o staff yn defnyddio iaith safonol yn gadarn. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon ddealltwriaeth ddiogel o'r cwricwlwm ac yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau disgyblion yn briodol. Darperir tasgau diddorol sy'n ysgogi diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Fodd bynnag, yn y lleiafrif o wersi lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r addysgu yn sicrhau bod pob disgybl yn defnyddio medrau meddwl yn llwyddiannus nac yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Yma, mae cyflymdra'r cyflwyniad yn araf, ac nid yw disgwyliadau'n ddigon uchel i ateb gofynion pob disgybl.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n addas yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau ar draws yr ysgol. Mae gwaith disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd gan ddilyn y meini prawf llwyddiant a chynnig sylwadau adeiladol i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith. Caiff y disgyblion gyfleoedd achlysurol i ymateb yn ysgrifenedig i'r sylwadau hyn. Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau hyn yn cael eu defnyddio'n gyson ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn ar gyfer asesu, monitro a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio data olrhain cynnydd disgyblion yn briodol i adnabod a darparu ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae’r adroddiadau blynyddol i rieni yn rhoi gwybodaeth briodol iddynt am gynnydd a chyflawniad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd. Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd da o wasanaethau arbenigol ac mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn derbyn cefnogaeth a chynhaliaeth briodol. Enghraifft o hyn yw’r cydweithio agos â’r gwasanaeth iechyd er mwyn hyfforddi staff ar sut i ofalu am ddisgyblion sydd ag anghenion meddygol. Mae lefel uchel y gofal a’r berthynas waith gadarnhaol rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o’r ysgol ac yn cyfrannu’n effeithiol at eu datblygiad.

Mae staff yn adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn gywir. Maent yn cynllunio darpariaeth a strategaethau ymyrraeth yn llwyddiannus. Mae’r cynlluniau addysg unigol a ddarperir ar gyfer pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn fanwl ac yn cynnwys targedau clir. Mae’r rhieni yn cael eu cynnwys yn briodol yn yr adolygiadau o’r cynlluniau hyn, er nid yw’r ysgol yn ystyried llais y disgybl yn rheolaidd yn y broses. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd yn erbyn eu targedau.

Mae’r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan Ysgol Hirael ethos cadarnhaol iawn tuag at amrywiaeth a chydraddoldeb sy’n hyrwyddo parch yn dda. Mae’n ysgol gynhwysol sy’n rhoi pob cyfle i’r disgyblion gael ystod o brofiadau gwerthfawr. Mae athrawon yn defnyddio’r gymuned leol yn dda i hyrwyddo ymwybyddiaeth o amrywiaeth a chydraddoldeb, a hynny ochr yn ochr â hybu ymwybyddiaeth o ddiwylliant a’r iaith Gymraeg.

Mae’r staff yn gwneud defnydd da o’r adeiladau a’r tir. Maent yn creu awyrgylch symbylus trwy arddangosfeydd a gwaith celf safonol sy’n dathlu llwyddiant y disgyblion yn effeithiol. Mae ardal allanol y Cyfnod Sylfaen wedi’i chynllunio’n bwrpasol ac yn cael ei defnyddio’n effeithiol i hybu datblygiad medrau disgyblion. Mae safon glanweithdra, cynnal a chadw a diogelwch yr ysgol a’r tir yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir i arwain ysgol gynhwysol lle mae pob disgybl yn bwysig. Mae hi'n rhannu'r weledigaeth yn briodol gyda'r staff, llywodraethwyr a'r rhieni er mwyn gwella cyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae hi wedi llwyddo i gyflawni gwelliannau yn y ddarpariaeth sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau. Enghraifft o hyn yw'r rhaglenni ymyrraeth effeithiol i godi safonau darllen disgyblion bregus.

Mae strwythur arweinyddiaeth yr ysgol yn cynnwys nifer o uwch athrawon a phennaeth cynorthwyol sy'n cefnogi'r pennaeth yn gadarn. Mae ganddynt swydd ddisgrifiadau sy'n nodi cyfrifoldebau'n glir. Fodd bynnag, nid yw cyfrifoldebau'r uwch athrawon yn hollol gytbwys nac yn ddigon strategol i fynd i'r afael â holl flaenoriaethau'r ysgol yn effeithiol.

Gwneir defnydd addas o ddadansoddi data perfformiad gan yr uwch dîm rheoli i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae cyfarfodydd staff yn canolbwyntio'n briodol ar y broses gwella'r ysgol ac yn arwain at gamau gweithredu addas i wella arfer. Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol ar gyfer yr athrawon ond nid yw'r targedau bob tro'n cydgysylltu'n ddigon agos â blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarn i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol; er enghraifft, mae Siarter Iaith yr awdurdod a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn cael sylw priodol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn ymwybodol o'i blaenoriaethau. Mae llawer ohonynt yn dechrau cymryd rhan mewn sesiynau dadansoddi data, craffu ar lyfrau ac arsylwi gwersi er mwyn gwella'u dealltwriaeth o'r ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddechrau herio'r ysgol yn briodol i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformio. Fodd bynnag, nid yw'r herio hyn wedi cael digon o effaith eto ar godi safonau ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd addas o ystod o weithdrefnau ar gyfer arfarnu ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad disgyblion. Mae'r dystiolaeth yn cynnwys data perfformiad disgyblion, arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion ac adroddiadau monitro'r consortiwm. Yn gyffredinol, mae adroddiadau monitro arweinwyr yn ddadansoddol ac arfarnol, ac yn nodi'r cryfderau a'r dyffygion yn briodol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu, er ychydig yn ddisgrifiadol mewn mannau, yn adnabod cryfderau'r ysgol a llawer o'r meysydd sydd angen eu datblygu yn addas.

Mae cyswllt cadarn yn bodoli rhwng blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol a phrif ddeilliannau'r broses hunanarfarnu. Mae strwythur y cynllun datblygu ysgol yn briodol a'r camau i'w gweithredu yn glir ac ymarferol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn nodi cyfrifoldebau na thargedau meintiol o ran safonau disgyblion yn ddigon clir. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i arfarnu cynnydd yn effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol lawer o bartneriaethau cadarn sy'n cael effaith werthfawr ar ddysgu a lles disgyblion. Mae perthynas lwyddiannus yn bodoli rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae rhieni'n teimlo bod croeso mawr iddynt yn yr ysgol a bod staff yn eu cefnogi'n dda wrth iddynt gymryd rôl weithredol yn addysg eu plant.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau buddiol gydag asiantaethau arbenigol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth yn dda. Mae'r ysgol yn dechrau cydweithio gydag ysgolion lleol eraill er mwyn datblygu ymhellach y gefnogaeth ar gyfer disgyblion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae hyn yn cryfhau dealltwriaeth yr holl staff addysgu o anghenion amrywiol y disgyblion hyn. Mae datblygiad diweddar i gymedroli gwaith Blwyddyn 6 gydag ysgolion y clwstwr wedi helpu i sicrhau cysondeb a chywirdeb asesiadau athrawon.

Mae trefniadau trosglwyddo wedi'u sefydlu'n llwyddiannus ac fe wneir trefniadau penodol i sicrhau bod y plant meithrin yn ymgartrefu'n fuan yn eu lleoliad newydd. Mae cysylltiadau â'r ddwy ysgol uwchradd leol yn sicrhau bod y disgyblion hŷn yn cael eu paratoi'n dda at y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae cysylltiadau gwerthfawr gyda'r gymuned ehangach, sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar les a phrofiadau dysgu disgyblion. Enghraifft dda yw'r taith gerdded i Gwm Idwal sy'n ymestyn dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gadw'n iach a diogel.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol ac mae arweinwyr yn defnyddio arbenigedd y staff yn effeithiol i sicrhau darpariaeth gadarn ar gyfer y rhan fwyaf o ddisgyblion. Caiff cynorthwywyr dysgu eu defnyddio'n dda i gefnogi a gwella deilliannau grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu wedi'i threfnu'n briodol er mwyn sicrhau bod athrawon yn defnyddio'r amser hwn yn addas. Mae'r ysgol yn sicrhau hyfforddiant addas ar gyfer yr holl staff, sy'n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Enghraifft o hyn yw'r hyfforddiant ar gyfer cynorthwywyr er mwyn datblygu medrau darllen disgyblion. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer athrawon yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r broses hon pob amser yn arwain at dargedau penodol sy'n ymateb yn llawn i flaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn nifer o rwydweithiau proffesiynol ar y cyd ag ysgolion eraill. Mae'n rhan o rwydwaith i ddatblygu adnoddau ar gyfer disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwnaegol. Mae safonau cyfredol y disgyblion hyn yn dangos bod y rhain yn cael effaith gadarnhaol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus. Maent yn sicrhau bod cyflenwad priodol o adnoddau sy'n ymateb i anghenion y disgyblion o bob oedran. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i godi safonau llythrennedd a rhifedd grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol.

O ystyried deilliannau disgyblion dros gyfnod, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6612227 - Ysgol Hirael**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 171 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 24.2 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 18 | 24 | 14 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 77.8 | 66.7 | 35.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 24 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 77.8 | 79.2 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 22.2 | 16.7 | 14.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 24 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 87.5 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 22.2 | 4.2 | 14.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 24 | 14 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 94.4 | 79.2 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 61.1 | 66.7 | 7.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6612227 - Ysgol Hirael**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 171 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 24.2 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 31 | 24 | 27 | 22 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 74.2 | 79.2 | 85.2 | 86.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 24 | 27 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.6 | 91.7 | 88.9 | 86.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.7 | 12.5 | 37.0 | 54.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 2 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 24 | 27 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 67.7 | 62.5 | 77.8 | 77.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 22.6 | 8.3 | 14.8 | 31.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 24 | 27 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.1 | 83.3 | 88.9 | 86.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.7 | 25.0 | 33.3 | 27.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 24 | 27 | 22 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.1 | 95.8 | 92.6 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.9 | 45.8 | 48.1 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 93 | 93<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 93 | 89<br>96%<br>92% | 4<br>4%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 93 | 89<br>96%<br>97% | 4<br>4%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 93 | 93<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 93 | 92<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 92 | 91<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 93 | 93<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 93 | 89<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 93 | 89<br>96%<br>91% | 4<br>4%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 93 | 92<br>99%<br>95% | 1<br>1%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 92 | 58<br>63%<br>77% | 34<br>37%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 93 | 77<br>83%<br>84% | 16<br>17%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 24 | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 26 | 19 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 26 | 17 | 9 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 25 | 14 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 56% | 44% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 25 | 15 | 10 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 26 | 15 | 11 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 24 | 17 | 6 | 1 | 0 | 2 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 71% | 25% | 4% | 0% | | |
| | | 65% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 22 | 11 | 10 | 1 | 0 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 50% | 45% | 5% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 26 | 17 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 65% | 35% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 26 | 17 | 8 | 1 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 65% | 31% | 4% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 26 | 18 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 24 | 14 | 10 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 58% | 42% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 24 | 16 | 8 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| Statement | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | Datganiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 25 | 18<br>72% | 7<br>28% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 23 | 14<br>61% | 9<br>39% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 26 | 15<br>58% | 10<br>38% | 1<br>4% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 22 | 11<br>50% | 11<br>50% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 26 | 17<br>65% | 9<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 26 | 20<br>77% | 6<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Kevin Davies | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Jeremy George Turner | Arolygydd Lleyg |
| Gwyneth Hughes | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nia Walker | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.